## ASTUDIAETH ACHOS: Parc Waun Capel

**Cyflwyniad**

Mae gan Barc Waun Capel yn Rhaeadr Gwy gryn dipyn o laswelltir amwynderol y mae Cyngor Sir Powys (CSP) yn ei dorri'n rheolaidd. Mae'r parc ger afon Gwy ac ar ffin coetir, ac mae'n rhan o goridor bywyd gwyllt pwysig sy'n rhedeg trwy Raeadr Gwy ac ar hyd afon Gwy, gan gysylltu cefn gwlad i'r gogledd o'r dref â chefn gwlad i'r de.  Er mwyn creu mwy o ardaloedd llawn bywyd gwyllt, i gysylltu'r parc â chynefinoedd gerllaw a dod â bywyd gwyllt yn agosach at bobl Rhaeadr Gwy, bu Cysylltiadau Gwyrdd yn gweithio gydag Ymddiriedolwyr y Parc i greu cynllun rheoli a fyddai'n cynyddu'r ardaloedd o laswellt hir llawn bywyd gwyllt ac, o ganlyniad i hyn, helpu i leihau amser a chostau CSP trwy dorri'r glaswellt yn llai aml.



**Coridorau Bywyd Gwyllt**

Gall afonnydd, coetiroedd a gwrychoedd lunio coridor bywyd gwyllt. Mae'r coridorau hyn yn darparu llwybrau pwysig  i fywyd gwyllt ledaenu a chytrefu ardaloedd newydd. Mae gallu symud o fewn diogelwch y coridor o fudd i'r holl ffawna a fflora. Mae Waun Capel, sydd wedi'i amlinellu mewn coch, yn rhan bwysig o'r coridor hwn.

**Y Prosiect**

Y gobaith oedd trosi ardaloedd glaswelltir amwynderol sy'n cael ei dorri o fewn y Parc i ddod yn ardaloedd llawn blodau gwyllt, cwtogi ar dorri glaswellt i ddarparu ardaloedd o laswellt hirach ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn a bywyd gwyllt arall trwy gydol y flwyddyn. Bwriadwyd gosod cynhwyswyr planhigion mawr o bren gyda llysiau sy'n blodeuo a phlanhigion cyfeillgar i beillwyr fel nodwedd ger mynedfa safle'r Castell, a gwesty gwenyn ac arwyddion 'gwyllt am natur' i roi gwybod i ddefnyddwyr bod ardaloedd yn cael eu rheoli ar gyfer bywyd gwyllt. Byddai hyn yn arwain at greu cynefin pwysig ar gyfer bywyd gwyllt a dod â bywyd gwyllt yn agosach at bobl Rhaeadr Gwy.

Trefnodd staff Cysylltiadau Gwyrdd ddigwyddiad lansio cymunol ym mis Awst 2021, gyda stondinau â gwybodaeth am fywyd gwyllt i gael pobl leol i ymgysylltu â'r prosiect, a thaith gerdded ystlumod gyda'r hwyr. Roedd y digwyddiad hefyd yn ddigwyddiad cofnodi a daeth pobl leol o hyd i 57 o rywogaethau ar y diwrnod a'u hadnabod.

Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau ar y safle ag Ymddireoldwyr y Parc, swyddog Cadw a swyddog torri glaswellt CSP i gytuno ar waith y prosiect, trafod y drefn torri glaswellt newydd ar gyfer yr ardaloedd glaswelltir a thrafod gwaith â choed y byddai CSP yn ei wneud.

Gyda help garddwyr lleol y Parc a gwirfoddolwyr eraill, digroenwyd ardaloedd glaswelltir, heuwyd hadau blodau gwyllt a phlannwyd planhigion plwg.

Codwyd arwyddion 'gwyllt am natur', a llenwyd dau gynhwysydd planhigion mawr o bren â gwrtaith di-fawn a phlanhigion cyfeillgar i wenyn ger mynedfa'r Castell. Gosodwyd gwesty gwenyn ac arwyddion dehongli hefyd.

Er mwyn sicrhau y parheir â'r gwaith rheoli yn y dyfodol, ysgrifennodd staff Cysylltiadau Gwyrdd gynllun gwella bioamrywiaeth 5-mlynedd ar gyfer y Parc.

**Allbynnau'r Prosiect**





| Digwyddiad | Mynychwyr |
| --- | --- |
| Diwrnod Bywyd Gwyllt | 80 |
| Diwrnod Peillwyr | 7 |
| Diwrnod Peillwyr | 7 |
| Taith Gerdded Ystlumod | 12 |

- Denodd Diwrnod Bywyd Gwyllt, i gyflwyno'r prosiect i'r gymuned, 92 o ymwelwyr.
- Mewn bioblits yn yr un digwyddiad, adnabuwyd 57 o rywogaethau a darparwyd arolwg llinell sylfaen i adeiladu cofnodion arni yn y dyfodol.
- Daethpwyd o hyd i 3 rhywogaeth o ystlumod yn ystod taith gerdded ystlumod gyda'r hwyr ar y Diwrnod Bywyd Gwyllt.
- Cafwyd dau ddiwrnod adnabod peillwyr.
- Heuwyd un cilo o hadau blodau gwyllt, a phlannwyd 70 o blanhigion plwg blodau gwyllt.
- Gosodwyd dau o gwynhwyswyr planhigion mawr o bren gyda phlanhigion peillwyr a gwesty gwenyn.
  Codwyd pump o arwyddion 'gwyllt am natur'.



**Deilliannau'r Prosiect**

- Mae Ymddiriedolwyr y Parc wedi'u grymuso i barhau i wella'r parc ar gyfer bywyd gwyllt a phobl, gyda chynllun gwella bioamrywiaeth 5-mlynedd fel canllaw i'w ddilyn.
- Cytundeb â CSP i dorri dim ond hanner yr ardaloedd glaswelltir blodau gwyllt bob hydref, yn unol â'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth.
- Cytundeb y bydd CSP yn torri llwybr glaswellt llydan yn rheolaidd trwy ardal glaswellt hirach ar safle'r Castell i bobl ei ddefnyddio a bod o fewn yr ardal blodau gwyllt heb sathru arni.
- Mae gwirfoddolwyr a garddwyr y Parc wedi'u grymuso i fynd ati i gribinio hanner yr ardaloedd glaswelltir blodau gwyllt yn flynyddol bob hydref a gwneud gwrtaith ohono. Bydd y garddwyr a thrigolion sy'n byw ger y parc yn gofalu am y planhigion yn y cynhwyswyr ac yn eu cynnal a'u cadw.
- Mae arwyddion 'gwyllt am natur' wedi addysgu defnyddwyr y parc am nodau creu a rheoli ardaloedd yn y tymor hir i annog bywyd gwyllt.